# CYLCH GORCHWYL

Cyfraith amaethyddol yng Nghymru:

Adolygu’r gyfraith sy’n ymwneud ag amaethyddiaeth yng Nghymru gyda’r nod o amlinellu ffurf a chynnwys ar gyfer Cod cyfraith amaethyddol i Gymru, ac argymell sut y gellir symleiddio a moderneiddio’r gyfraith er mwyn ei gwneud yn fwy hygyrch.

Bydd cam cwmpasu’r adolygiad yn ystyried ac yn nodi:

(1) Pa ddeddfwriaeth ddylai fod yn rhan o God cyfraith amaethyddol i Gymru,

(2) Pa newidiadau technegol neu addasiadau i’r gyfraith sy’n ddymunol neu’n angenrheidiol er mwyn symleiddio a moderneiddio’r gyfraith yn y cod cyfraith amaethyddol, a

(3) Meysydd posibl y gallai fod angen eu dadansoddi ymhellach.

Bydd y cam cyntaf yn dod i ben drwy gyhoeddi adroddiad cwmpasu a fydd yn cael ei gyfyngu i godeiddio a diwygio technegol er mwyn symleiddio’r gyfraith. Ni fydd yn ymestyn i ddiwygio polisi nac yn adolygu sylwedd polisi amaethyddol yng Nghymru.

Yn dilyn cam adolygu, efallai y bydd y Comisiwn a Llywodraeth Cymru yn cytuno ar brosiect ail gam a fydd yn canolbwyntio ar feysydd gwaith dynodedig y mae angen ymgynghori arnynt, ac un neu ragor o adroddiadau pellach.